

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2018/19

Y Brifysgol Agored

CYNNWYS

1.Cyflwyniad	3
2. Grŵp Llywio Safonau'r Gymraeg	5
3. Cydymffurfio	7
4. Canolbwyntio ar y flwyddyn nesaf	14

1. CYFLWYNIAD

Fel darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru, cafodd y Brifysgol Agored hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 29 Medi 2017. Er bod y Brifysgol Agored yn gweithredu ar sail rhannol ddatganoledig (Y Brifysgol Agored yng Nghymru), mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r safonau dilynol yn berthnasol i'r Brifysgol Agored fel un endid. Fodd bynnag, mae'r safonau eu hunain yn berthnasol i staff, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Cyn dechrau gweithredu o dan y safonau, roedd gan y Brifysgol Agored gynllun iaith Gymraeg. Yn sgil datblygiadau hanesyddol o dan y cynllun hwn, mae'r Brifysgol Agored wedi gallu darparu llawer o wasanaethau Gymraeg, gan ein rhoi mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion llawer o'r safonau o dan y system newydd.

Yr adroddiad hwn, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, yw'r ail i'r Brifysgol Agored ei lunio yn unol â safon 166, 172 a 177. Dyma'r adroddiad cyntaf gyda'r holl safonau a osodwyd ar y Brifysgol Agored wedi'u cwmpasu, gan gynnwys y safonau a gafodd eu gosod ar 1 Hydref 2018 a 1 Ebrill 2019.

Yn 2019, fe ddatlodd y Brifysgol Agored ei phen-blwydd yn 50 oed. Yng Nghymru, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau, sgysiau a gweithgareddau hyrwyddo ac mae'r rheini wedi helpu'r brifysgol i ymgysylltu â hyd yn oed mwy o bobl a chymunedau. Hefyd, helpodd i bwysleisio safle'r Brifysgol Agored yn nhirlun addysg uwch Cymru, a sut mae wedi bod yn berthnasol i bobl Cymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg dros y 50 mlynedd diwethaf.

Er mai Saesneg yw iaith addysgu'r Brifysgol Agored, rydym yn falch o'r gefnogaeth rydym yn ei roi i'n myfyrwyr sy'n dewis cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg. Yn 2020, bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig cymhwyster TAR er mwyn creu llwybr hyblyg i astudio i ddod yn athro. Bydd myfyrwyr yn gallu dewis astudio i ddod yn athro mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bydd y Brifysgol Agored yn cynnig cwrs a fydd yn cael ei addysgu drwy'r Gymraeg yn unig i'r myfyrwyr sy'n dewis hynny.

Datblygiad sylweddol arall gan y Brifysgol Agored yw datblygu fersiwn Cymraeg o'r porth llyfrgell ar-lein. Fel prifysgol lle gellir dysgu o bell, mae'r Brifysgol Agored yn rhoi pwys mawr ar lyfrgell ar-lein. Er nad yw'n un o ofynion y safonau, mae rhoi'r

dewis i ddefnyddwyr Cymraeg allu chwilio am ddeunyddiau yn Gymraeg fel rhan o'u hastudiaeth yn rhywbeth i'w ddathlu.

Rydym yn ddiolchgar i Gomisiynydd y Gymraeg a'i dîm am eu cefnogaeth a'u harweiniad parhaus dros y 12 mis diwethaf ac rydym yn edrych ymlaen at ddal ati i ddatblygu ein gwasanaethau a'n cefnogaeth i fyfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd dros y flwyddyn nesaf.

2. GRŴP LLYWIO SAFONAU'R GYMRAEG

Er mwyn paratoi ar gyfer y safonau, roedd y Brifysgol Agored wedi rhannu pob un ohonynt i ffrydiau gwaith gwahanol, sef:

- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Cysylltu â'r Brifysgol Agored
- Myfyrwyr
- Adnoddau Dynol
- Polisiâu sydd ddim yn gysylltiedig ag Adnoddau Dynol
- Cyhoeddusrwydd
- Cyhoeddiadau
- Ffurflenni
- Y we
- Tendre
- Technoleg Gwybodaeth

Yn wreiddiol, roedd penaethiaid ffrydiau gwaith yn cyfarfod bob mis i weithio at gydymffurfio â'r safonau. Ar ôl y dyddiadau gosod, ystyriwyd y safonau fel 'busnes arferol' ac fe'u hymgorfforwyd yng ngweithrediadau o ddydd i ddydd y Brifysgol Agored. Mae cyfarfodydd misol y grŵp llywio wedi dod i ben ac mae penaethiaid y ffrydiau gwaith nawr yn cyfarfod bob chwe mis i drafod datblygiadau a heriau posibl yn y dyfodol. Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n parhau i gadeirio'r grŵp llywio.

Mae'r Brifysgol Agored yn dal i weithio'n agos ag Ateb, sef ymgynghorwyr y Gymraeg, i sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael wrth ddelio â materion cydymffurfio cymhleth. Mae Rheolwr Cyfathrebu'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn parhau i arwain ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan roi cyngor i staff ar draws y brifysgol yn ddyddiol.

Llwyddiannau yn ystod y blwyddyn ariannol 2018/19:

- creu gweithgor i asesu'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno'n Gymraeg, a rhoi arweiniad QAA i'r staff academaidd

- parhau i roi sesiynau ymwybyddiaeth i'r staff, gan gynnwys y staff academaidd
- Addysgu mwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gweithio'n agos â'r garfan Gymraeg sy'n astudio'r radd Gwaith Cymdeithasol ac sy'n cyflwyno gwaith ysgrifenedig Cymraeg yn rheolaidd
- bodloni archwiliad mewnol y brifysgol o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

3. CYDYMFFURFIO

A. Safonau Darparu Gwasanaeth

Dyma'r safonau mae'r Brifysgol Agored wedi'u mabwysiadu'n llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 24, 24A, 26A, 27, 27A, 27D, 29, 29A, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 40A, 41, 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 52, 53A, 53B, 54, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 65, 66, 67, 68, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 76A, 78, 79, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 90A, 93	1 Ebrill 2018
53, 55, 80, 81, 81A, 83, 84	1 Hydref 2018

Rydym yn hyderus ein bod cydymffurfio'n llwyddiannus â'r safonau hyn. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y safonau darparu gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gwaith yn dal ar y gweill i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â llawer o'r safonau hyn yn y ffordd orau posib, gan gynnwys:

- Gofynnwyd i fyfyrwyr cofrestredig a fyddent yn hoffi derbyn gohebiaeth gan y Brifysgol Agored yn Gymraeg. Yna, cofnodir hyn ac mae'r brifysgol yn cysylltu â'r myfyrwyr hyn drwy'r Gymraeg.
- Mae canllawiau ar gyfer staff wedi cael eu cyhoeddi ar ein mewnwyd er mwyn asesu gofynion y Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus.
- Mae rhagor o gysylltiadau wedi'u creu â chwmnïau cyfieithu allanol er mwyn delio â'r galw cynyddol a'r cyfnodau prysur o ran cyfieithu i'r Gymraeg.

- Mae porth e-ddysgu ar-lein opsiynol wedi'i chreu ar gyfer y staff er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Brifysgol Agored o dan safonau'r Gymraeg.
- Mae adran newydd wedi'i chreu ar wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru yn rhoi manylion am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, gan gynnwys y cymorth sy'n cael ei gynnig yn Gymraeg.
- Mae tiwtoriaid ymarferol Cymraeg eu hiaith wedi cael eu dyrannu i'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n astudio'r radd prentisiaeth newydd mewn peirianeg meddalwedd yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.
- Mae laniardau a bathodynau Iaith Gwaith yn dal i gael eu dosbarthu i staff a laniardau dysgwyr i ddysgwyr.

B. Safonau llunio polisïau

Dyma'r safonau mae'r Brifysgol Agored wedi'u mabwysiadu'n llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104	1 Hydref 2018

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf i orfod rhoi manylion am gydymffurfio â'r safonau hyn. Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y safonau llunio polisïau yn ystod y cyfnod adrodd.

Dyma'r gwaith sydd wedi'i wneud ers y dyddiad gosod:

- Mae adnodd sgrinio newydd wedi cael ei gyflwyno ar gyfer polisïau, sy'n caniatáu asesu polisïau am effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg, ynghyd â defnyddio ffyrdd cadarnhaol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg.
- Mae'r penderfyniadau sy'n deillio o ddefnyddio'r adnodd hwn wedi'u cadw mewn lleoliad canolog er mwyn iddynt fod ar gael i staff perthnasol yn y dyfodol.

C. Safonau gweithredol

Dyma'r safonau mae'r Brifysgol Agored wedi'u mabwysiadu'n llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
106, 107, 108, 109, 110, 111, 119, 119A, 121, 122, 123, 123A, 125, 126, 127, 132, 134, 135, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 144A, 145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149, 150, 151, 152, 153	1 Ebrill 2018
105, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118	1 Hydref 2018
111	1 Ebrill 2019

Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y safonau gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gwaith yn dal ar y gweill i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn yn y ffordd orau posib, gan gynnwys:

- Mae'r polisïau Adnoddau Dynol perthnasol wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg
- Ar hyn o bryd, mae Cymraeg Lefel 1 yn cael ei gynnig a'i ddarparu i nifer o staff sy'n gweithio yng Nghymru.

SGILIAU IAITH GYMRAEG – YN UNOL Â SAFONAU 134 A 158

Mae'r Brifysgol Agored wedi cynnal archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg ei staff. Mae canlyniadau'r arolwg, yn seiliedig ar gyfradd cwblhau o **73%**, yn y tabl isod:

Sgiliau gwranddo yn Gymraeg	Nifer	%
Dim sgiliau	30	34
Yn y broses o ddatblygu sgiliau ar hyn o bryd (ee mynychu cwrs Cymraeg)	16	18
Gallu deall ymholiadau syml yn Gymraeg (Ble mae....? / Ga i siarad â....?)	16	18
Gallu deall sgwrs gymdeithasol syml yn Gymraeg	4	5
Gallu dilyn sgysiau cyffredin sy'n ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl	4	5
Gallu dilyn y rhan fwyaf o'r sgysiau sy'n ymwneud â gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp	5	6
Gallu deall yr holl sgysiau sy'n ymwneud â gwaith	12	14
Sgiliau darllen yn Gymraeg	Nifer	%
Dim sgiliau	29	34
Yn y broses o ddatblygu sgiliau ar hyn o bryd (ee mynychu cwrs Cymraeg)	13	15
Gallu darllen geiriau ac ymadroddion syml (ee arwyddion neu nodiadau byr a syml)	20	23
Gallu darllen deunyddiau syml sy'n ymwneud â gwaith (yn araf)	3	3
Gallu darllen deunyddiau cyffredin gyda geiriadur	7	8
Gallu darllen y rhan fwyaf o ddeunydd ei am faes gwaith	7	8

Gallu deall yr holl ddeunyddiau sy'n ymwneud â gwaith	7	8
Sgiliau siarad Cymraeg	Nifer	%
Dim sgiliau	30	34
Yn y broses o ddatblygu sgiliau ar hyn o bryd (ee mynychu cwrs Cymraeg)	14	16
Gallu ateb ymholiadau syml (ee cyfarchion, (Ble mae....? / Ga i siarad â....?))	20	23
Gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â gwaith	3	3
Gallu siarad â rhywun arall, ychydig yn betrus, am faterion gwaith cyffredin	2	2
Gallu siarad Cymraeg mewn rhan fwyaf o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ychydig o eiriau Saesneg	7	8
Rhugl – gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod hir, os bydd angen	11	13
Sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg	Nifer	%
Dim sgiliau	39	45
Yn y broses o ddatblygu sgiliau ar hyn o bryd (ee mynychu cwrs Cymraeg)	18	21
Gallu ysgrifennu neges syml (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o	8	9
Gallu ateb gohebiaeth syml â chymorth	4	5
Gallu drafftio testun cyffredin, gyda chymorth golygu	6	7
Gallu paratoi'r rhan fwyaf o ddeunyddiau ysgrifenedig, gydag ychydig o gymorth i'w adolygu	4	5
Crefftus – gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei adolygu	8	9

HYFFORDDIANT – YN UNOL Â SAFONAU 135 A 159

- Yn unol â safon 135, rydym wedi cymryd camau i roi'r cyfle i'n staff ymgymryd â hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg pan fydd hyfforddiant yn y meysydd hynny yn cael eu darparu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ddewisodd yr un aelod o staff yr opsiwn Cymraeg

RECRIWTIO – YN UNOL Â SAFONAU 145 A 162

Rhwng 1 Awst 2018 a 1 Awst 2019, dyma faint o swyddi recriwtiodd y Brifysgol Agored gyda gofynion iaith penodol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru:

- (i) Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1
- (ii) Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael ei benodi i'r swydd – 0
- (iii) Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol – 29
- (iv) Nid oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol – 1

4. CANOLBWYNTIO AR Y FLWYDDYN NESAF

Mae'r flwyddyn nesaf yn rhoi cyfle newydd i'r Brifysgol Agored gysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, a'r gymuned o siaradwyr Cymraeg yn ei chyfanrwydd.

Mae dysgu o bell a dysgu rhan-amser yn dal i dyfu yng Nghymru. Mae dros 10,000 o fyfyrwyr yng Nghymru erbyn hyn, ac mae Cymru'n cyfrannu'n sylweddol at dwf y brifysgol ar lefel y DU. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at fwy o'n dysgwyr yn gofyn am wasanaethau Cymraeg, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ymholiadau am gyrsiau'r Brifysgol Agored.

Bydd ein cwrs TAR yn dod â rhagor o siaradwyr Cymraeg rhugl i'n tîm staff a bydd rhaid i nifer fawr o fyfyrwyr gael eu haddysgu a chyflwyno gwaith drwy'r Gymraeg. Hefyd, bydd y rhaglen yma'n helpu i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r byd addysg, gan ei fod yn cynnig llwybr hyblyg i'r rheini sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol neu rhywle arall. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn creu mwy o staff addysgu cyfrwng Cymraeg ac yn cyfrannu at y targed o 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r brifysgol yn newid llawer o'i systemau Technoleg Gwybodaeth craidd ac mae ein tîm cyflawni yn gweithio'n agos gyda'n staff yng Nghymru i sicrhau na fydd unrhyw system newydd yn arwain at drafferthion cydymffurfio. Mae'r datblygiadau cadarnhaol i'r maes yma, a fydd yn cael eu cyflwyno'n fuan, yn cynnwys porth Adnoddau Dynol dwyieithog i staff.